**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-0041-23
Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Ionawr 2022

Annwyl Llywydd,

**RHEOLIADAU ARDRETHU ANNOMESTIG (LLUOSYDD) (CYMRU) 2023**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023, dan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Daw'r ddeddfwriaeth i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan Senedd Cymru ac yn cael effaith o 1 Ebrill 2023. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i Senedd Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn cyn i'r Senedd gymeradwyo'r *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2023, neu cyn 1 Mawrth 2023, pa un bynnag yw'r cynharaf, er mwyn iddo fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 28 Chwefror 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.